# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

## RHAN 3

FFURFLENNI TRETH, YMHOLIADAU AC ASESIADAU

## PENNOD 3

FFURFLENNI TRETH

*Diwygio a chywiro ffurflenni treth*

### 42 ACC yn cywiro ffurflen dreth

(1) Caiff ACC gywiro unrhyw wall neu hepgoriad amlwg mewn ffurflen dreth.

(2) O ran cywiriad o dan yr adran hon—

(a) caiff ei wneud drwy ddyroddi hysbysiad i'r person a ddychwelodd y ffurflen dreth, a

(b) ystyrir ei fod yn rhoi effaith i ddiwygiad i'r ffurflen dreth.

(3) Mae'r cyfeiriad at wall yn is-adran (1) yn cynnwys, er enghraifft, gamgymeriad rhifyddol neu wall o ran egwyddor.

(4) Rhaid gwneud cywiriad o dan yr adran hon cyn diwedd y cyfnod o 9 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y dychwelwyd y ffurflen dreth.

[F1(4A) Os yw swm neu swm ychwanegol o dreth ddatganoledig yn daladwy o ganlyniad i gywiriad a wneir o dan yr adran hon, rhaid i'r person a ddychwelodd y ffurflen dreth dalu'r swm, neu'r swm ychwanegol, cyn diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y dyroddir hysbysiad am y cywiriad.**]**

(5) Nid oes unrhyw effaith i gywiriad o dan yr adran hon os yw'r person a ddychwelodd y ffurflen dreth yn ei wrthod—

(a) yn ystod y cyfnod diwygio, drwy ddiwygio'r ffurflen dreth **[**F2o dan adran 41**]** er mwyn gwrthod y cywiriad, neu

(b) ar ôl y cyfnod hwnnw, drwy roi hysbysiad sy'n gwrthod y cywiriad.

(6) Rhaid rhoi hysbysiad o dan is-adran (5)(b) i ACC cyn diwedd y cyfnod o 3 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y dyroddir yr hysbysiad cywiro.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** A. 42(4A) wedi ei fewnosod (1.4.2018) gan Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (anaw 1), a. 81(2)(3), **Atod. 23 para. 11(a)**; O.S. 2018/34, ergl. 3

**F2** Geiriau yn a. 42(5)(a) wedi eu mewnosod (1.4.2018) gan Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (anaw 1), a. 81(2)(3), **Atod. 23 para. 11(b)**; O.S. 2018/34, ergl. 3

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 42 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 194(2)**

**I2** A. 42 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/33, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Adran 42.